Archwilio Cymru
Audit Wales

Cylch Gorchwyl (sy'n ymgorffori'r rheolau gweithdrefnol a wnaed dan Ran 7 o Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

Cyfeirnod y ddogfen:

Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 26 Medi 2023

Cynnwys

CYLCH GORCHWYL

Statws	**3**
Rôl a chyfrifoldebau	**3**
Cyfansoddiad	**3**
- Aelodaeth	3
- Penodiadau	4
- Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol	6
- Personau Cyswllt y Bwrdd	6
Cymorth ysgrifenyddol	**6**
Cyfarfodydd y Bwrdd	**7**
- Y rhaglen waith	7
- Mynychder	7
- Presenoldeb	7
- Papurau	7
- Cworwm	8
- Datganiadau o fuddiant	8
- Penderfyniadau a phleidleisio	9
- Ymddygiad	9
- Cofnodion	9
Dirprwyo swyddogaethau	**9**
Pwyllgorau'r Bwrdd	**10**
Camau gweithredu gan y Cadeirydd	**10**
Gwerthuso perfformiad	**10**
Dilysrwydd trafodion	**10**
Sêl Swyddfa Archwilio Cymru	**11**
Adolygu'r cylch gorchwyl	**11**
Atodiadau	
Atodiad 1 - rheolau ar gyfer ethol aelodau i'r Bwrdd o blith y cyflogeion	12
Atodiad 2 – Disgrifiad o rôl Person Cyswllt y Bwrdd	17

Statws

1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i sefydlu fel corff corfforedig o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ("y Ddeddf"). Mae'r cylch gorchwyl hwn yn cwmpasu'r trefniadau ar gyfer cynnal busnes a dylid ei ddarllen ar y cyd gyda'r canlynol:

- cynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru;
- y Cod Ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a hefyd
- Cod Ymddygiad y Bwrdd.

2 Mae'r cylch gorchwyl yn ymgorffori'r rheolau gweithdrefnol sy'n ofynnol o dan Atodlen 1, rhan 7, paragraff 27 o'r Ddeddf.

Rôl a chyfrifoldebau

3 O ran Swyddfa Archwilio Cymru:

(a) rhaid iddi fonitro'r modd yr arferir swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol;

(b) gall ddarparu cyngor ar arfer y swyddogaethau hynny;

(c) rhaid iddi ddarparu'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer arfer y swyddogaethau hynny a sicrhau bod annibyniaeth weithredol swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei gwarchod yn unol ag Adran 8 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;

(d) mae'n arfer rhai swyddogaethau penodol eraill o dan y Ddeddf, megis gweithio ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol ym mhob blwyddyn ariannol i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru

4 Yn rhinwedd y gofyniad ar Swyddfa Archwilio Cymru i gydymffurfio â'r cod ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, a gymeradwywyd gan y Senedd, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru hefyd:

(a) sicrhau bod annibyniaeth weithredol swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei chynnal yn unol ag Adran 8 o'r Ddeddf;

(b) cynnal safonau llywodraethu corfforaethol.

5 Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru amcanu at gyflawni ei swyddogaethau'n effeithlon ac yn gost-effeithiol

6 Disgrifir cyfrifoldebau penodol a chyfunol yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a'i haelodau yn y Cod Ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfansoddiad

Aelodaeth

7 Mae gan y Bwrdd naw aelod sy'n cynnwys:

(a) pum aelod anweithredol, y mae un ohonynt yn gweithredu fel y Cadeirydd;

(b) yr Archwilydd Cyffredinol sydd hefyd yn gweithredu fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru; ac

(c) tri aelod o blith y cyflogeion, un wedi'i enwebu gan yr Archwilydd Cyffredinol a dau wedi'u hethol trwy bleidlais gan y cyflogeion.

Penodiadau

8 Rhaid gwneud pob penodiad ar sail teilyngdod. Yn achos yr aelodau etholedig o blith y cyflogeion—gweler isod—pennir teilyngdod trwy bleidlais gan staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Aelodau anweithredol

9 Mae'r Senedd yn penodi pum aelod anweithredol ac yn pennu telerau eu penodiad gan gynnwys eu cyfrifoldebau, eu cydnabyddiaeth ariannol, yr amgylchiadau lle gellir terfynu eu penodiad a'r trefniadau os byddant yn dymuno ymddiswyddo yn unol ag Atodlen 1, Rhan 2 o'r Ddeddf. Mae penodiadau am hyd at bedair blynedd a gellir eu hadnewyddu unwaith, yn amodol ar broses asesu. Rhaid i bob penodiad ac adnewyddiad fod yn seiliedig ar gasgliadau cystadleuaeth deg ac agored.

Y Cadeirydd

10 Mae'r Senedd yn penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr aelodau anweithredol (ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru). Mae penodiadau am hyd at bedair blynedd a gellir eu hadnewyddu unwaith, yn amodol ar broses asesu.

11 Mae'r Senedd yn pennu telerau penodiad y Cadeirydd, gan gynnwys eu cyfrifoldebau, eu cydnabyddiaeth ariannol, yr amgylchiadau lle gellir terfynu eu penodiad a'r trefniadau os ydynt yn dymuno ymddiswyddo (yn ogystal ag ymddiswyddo neu heb ymddiswyddo fel aelod anweithredol hefyd).

Yr Archwilydd Cyffredinol

12 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn benodiad gan y Goron ar enwebiad y Senedd. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddal ei swydd am hyd at wyth mlynedd ac ni chaiff ei ailbenodi wedi hynny. Mae'r amgylchiadau sy'n llywodraethu ymddiswyddiad neu ddiswyddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi'u nodi yn adran 3 o'r Ddeddf.

13 O dan y Ddeddf, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru ac yn Brif Weithredwr arni.

Yr aelod penodedig

14 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell cyflogai i gael eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru gan yr aelodau anweithredol ("yr aelod penodedig"). Gall yr aelodau anweithredol benodi enwebai'r Archwilydd Cyffredinol neu fynnu argymhelliad arall (mae'r broses hon yn parhau nes ceir cytundeb). Rhaid i'r aelodau anweithredol esbonio'u rhesymau dros beidio â derbyn enwebiad. Bydd yr aelodau anweithredol yn penderfynu ar delerau penodiad yr aelod penodedig, gan gynnwys cyfnod eu penodiad, cyfrifoldebau, lwfansau, yr amgylchiadau lle gellir terfynu eu penodiad (yn ychwanegol at y rhai a nodir isod) a'r trefniadau os byddant yn dymuno ymddiswyddo o'r Bwrdd. Bydd y penodiad am ba bynnag dymor adnewyddol a bennir gan yr aelodau anweithredol ac nid oes cyfyngiad ar faint o weithiau y gellir adnewyddu penodiad o'r fath.

15 Gall yr aelod penodedig ymddiswyddo o'r Bwrdd trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol.

16 Mae penodiad yr aelod penodedig yn cael ei derfynu os yw'r aelod hwnnw'n peidio â bod yn gyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru mwyach. Gall yr aelodau anweithredol derfynu'r penodiad trwy roi rhybudd ysgrifenedig os yw'r canlynol yn wir am yr aelod:

(a) os yw wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Bwrdd heb ganiatâd y Bwrdd am gyfnod neu gyfnodau sy'n gyfanswm o dri mis neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis; neu

(b) os yw wedi dod yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant gyda chredydwyr; neu

(c) os yw ei ystâd wedi cael ei hatafaelu yn yr Alban neu, o dan Gyfraith yr Alban, os yw wedi cynnal compównd neu drefniant gyda, neu ganiatáu gweithred ymddiriedolaeth ar gyfer, credydwyr yr aelod; neu

(d) os yw'n anaddas i barhau â'r penodiad oherwydd camymddwyn; neu

(e) os yw wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad; neu

(f) os yw'n analluog, yn anaddas neu'n amharod fel arall i gyflawni swyddogaethau aelod. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd unrhyw fethiant i gydymffurfio â thelerau'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn cael ei drin fel methiant i gyflawni swyddogaethau aelod o'r Bwrdd a gall arwain at derfynu penodiad yr aelod penodedig.

Yr aelodau etholedig

17 Mae'r aelodau anweithredol yn penodi dau aelod o blith y cyflogeion yn dilyn pleidlais gan staff ("yr aelodau etholedig"). Mae'r rheolau ar gyfer cynnal pleidleisiau o'r fath wedi'u nodi yn Atodiad 1.

18 Mae'r aelodau anweithredol yn pennu telerau penodiad yr aelodau etholedig gan gynnwys cyfnod eu penodiad[1], eu cyfrifoldebau, eu lwfansau, yr amgylchiadau lle gellir terfynu eu penodiad (yn ychwanegol at y rhai a nodir isod) a'r trefniadau os byddant yn dymuno ymddiswyddo o'r Bwrdd. Nid oes terfyn ar faint o weithiau y gallant sefyll fel ymgeisydd mewn pleidleisiau dilynol.

19 Mae penodiad aelod o blith y cyflogeion yn cael ei derfynu os yw'r aelod hwnnw'n peidio â bod yn gyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru mwyach. Gall yr aelodau anweithredol derfynu penodiad aelod etholedig o blith y cyflogeion trwy roi rhybudd ysgrifenedig os yw'r canlynol yn wir am yr aelod:

(a) os yw wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Bwrdd heb ganiatâd y Bwrdd am gyfnod neu gyfnodau sy'n gyfanswm o dri mis neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis; neu

(b) os yw wedi dod yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant gyda chredydwyr; neu

(c) os yw ei ystâd wedi cael ei hatafaelu yn yr Alban neu, o dan Gyfraith yr Alban, os yw wedi cynnal compównd neu drefniant gyda, neu ganiatáu gweithred ymddiriedolaeth ar gyfer, credydwyr yr aelod; neu

(d) os yw'n anaddas i barhau â'r penodiad oherwydd camymddwyn; neu

(e) os yw wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad; neu

20 os yw'n analluog, yn anaddas neu'n amharod fel arall i gyflawni swyddogaethau elod.

[1] Yr arfer hyd yma (Medi 2023), fu bod yr aelodau anweithredol yn pennu cyfnod penodiad o bedair blynedd.

Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

21 Mae'r Cadeirydd yn enwebu aelod anweithredol i gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Lle nad yw'r person a enwebwyd gan y Cadeirydd yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd y Cadeirydd yn enwebu aelod anweithredol arall ar gyfer y rôl a bydd hyn yn parhau hyd nes bydd person yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Yn ogystal â dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan nad yw'n gallu gweithredu, mae cyfrifoldebau'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cynnwys:

(a) arfarnu perfformiad y Cadeirydd;

(b) cael adroddiadau gan chwythwyr chwiban y tu allan i'r gadwyn rheolaeth llinell arferol, a'r prif sianeli datgelu a nodir ym mholisi chwythu'r chwiban mewnol Swyddfa Archwilio Cymru a threfnu ymchwiliad fel y bo'n briodol, yn unol â'r polisi hwnnw; ac

(c) goruchwylio'r broses o ethol aelodau o blith y cyflogeion i'r Bwrdd.

Personau cyswllt y Bwrdd

22 Gall y Bwrdd benodi aelodau i rolau eraill i gefnogi neu hyrwyddo agweddau penodol ar fusnes neu brosiectau gorchwyl a gorffen Swyddfa Archwilio Cymru. Mae rolau o'r fath wedi'u bwriadu i ddangos ymrwymiad y Bwrdd a rhoi cyfle i aelodau ddatblygu mewnwelediad a gwybodaeth ynghylch y busnes, gan eu helpu hwy a'r Bwrdd i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol. Mae rhagor o wybodaeth am y rolau a'u diben yn atodiad 2.

Cymorth ysgrifenyddol

23 Rhaid i'r Bwrdd benodi Ysgrifennydd (nad yw'n aelod o'r Bwrdd) i:

a) sicrhau bod y Bwrdd wedi'i gyfansoddi a'i fod yn cael ei gynghori'n briodol;
b) sicrhau bod agendâu'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cyd-fynd â'i gilydd a bod materion priodol yn cael eu huwchgyfeirio i'w cynnwys ar agendâu'r Bwrdd;
c) cynnal cyswllt â'r Cadeirydd ynghylch y rhaglen waith;
d) sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth a phapurau mewn modd amserol er mwyn gallu rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i'r materion;
e) gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a chynnal cofnodion priodol o'i fusnes;
f) cyflawni'r dyletswyddau gweinyddol ar gyfer ethol aelodau o blith y cyflogeion i'r Bwrdd a nodir yn y rheolau etholiadol (atodiad 1); a
g) rhoi unrhyw gymorth ymarferol angenrheidiol arall.

24 Os daw swydd yr Ysgrifennydd yn wag, rhaid i'r Bwrdd benodi Ysgrifennydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gall y Bwrdd wneud penodiad dros dro gan ddilyn y broses o wneud penderfyniadau trwy e-bost (gweler paragraffau 57 a 58) i gyflenwi pan fo swydd wedi dod yn wag yn sydyn. Gall y Bwrdd hefyd wneud penodiad dros dro o'r fath yn achos sefyllfa dros dro sy'n golygu nad yw'r Ysgrifennydd penodedig yn gallu cyflawni'r rôl, megis sefyllfa a achosir gan afiechyd.

25 Mae'r Cadeirydd yn cyfrannu at yr arfarniad blynyddol o berfformiad yr Ysgrifennydd fel rhan o'r trefniadau arferol.

Cyfarfodydd y Bwrdd

Y rhaglen waith

26 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnal cynllun o'r busnes sy'n debygol o ddod gerbron y Bwrdd i gael ei ystyried yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn addasu'r cynllun yn ôl yr angen ym mhob cyfarfod.

Mynychder

27 Mae'r Bwrdd fel arfer yn cwrdd:

a) bedair gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd i gynnal trafodaethau strategol; a

b) chwe gwaith bob blwyddyn ar gyfer cyfarfodydd busnes,

yn unol â gofynion ei raglen waith.

28 Gelwir cyfarfodydd y Bwrdd gan yr Ysgrifennydd ar gais y Cadeirydd. Gall cyfarfod arbennig o'r Bwrdd gael ei alw ar unrhyw adeg gan y Cadeirydd neu ar gais ysgrifenedig unrhyw dri aelod. Gellir galw cyfarfod arbennig gyda llai na phum niwrnod gwaith o rybudd os yw'r Cadeirydd yn cyfarwyddo felly ac os oes materion sy'n mynnu ystyriaeth frys. Rhaid i'r sawl sy'n trefnu'r cyfarfod geisio sicrhau, yn amodol ar natur frys unrhyw fater sydd i'w drafod yn y cyfarfod, bod cymaint o aelodau o'r Bwrdd ag sy'n ymarferol yn debygol o fod ar gael i gymryd rhan.

Presenoldeb

29 Gall aelodau sy'n methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod godi unrhyw bwyntiau gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef.

30 Os yw'r Cadeirydd a'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ill dau'n methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod cyfan neu am ran ohono, rhaid i'r aelodau anweithredol sy'n weddill benodi un ohonynt i fod yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw neu am y rhan honno o'r cyfarfod. Bydd y trefniadau cworwm a ddisgrifir ym mharagraffau 34 i 37 yn berthnasol.

31 Oni bai bod y Cadeirydd yn penderfynu fel arall ar gyfer cyfarfod penodol, nid oes angen cynnal cyfarfodydd y Bwrdd mewn un lle ffisegol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan yn (ac yn rhan o'r cworwm mewn perthynas ag) un o gyfarfodydd y Bwrdd, neu ran o un o gyfarfodydd Bwrdd, pan allant gyfathrebu'n gyfamserol gyda'i gilydd mewn unrhyw fodd. Os nad yw holl aelodau'r Bwrdd sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod yn yr un lle, gallant benderfynu bod y cyfarfod yn cael ei drin fel un a gynhelir ble bynnag y mae unrhyw un ohonynt.

32 Gall y Bwrdd estyn gwahoddiad neu ei gwneud yn ofynnol i aelodau eraill o staff neu bersonau eraill, megis ymgynghorwyr proffesiynol, fod yn bresennol trwy gydol cyfarfodydd neu am ran o gyfarfodydd fel y bo'n briodol. Gall y Cadeirydd ofyn i rywun sy'n bresennol felly adael y cyfarfod ar unrhyw adeg.

Papurau

33 Oni chytunir fel arall, o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod, bydd yr Ysgrifennydd yn anfon hysbysiad o bob cyfarfod at yr aelodau ac unrhyw un y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol, a hwnnw'n cadarnhau'r lleoliad (lle mae'r cyfarfod yn mynd i gael ei gynnal mewn

lleoliad ffisegol), dyddiad ac amser ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod. Os rhagwelir na fydd aelodau'r Bwrdd sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn yr un lle ffisegol, rhaid i'r hysbysiad nodi sut y cynigir y dylent gyfathrebu gyda'i gilydd yn ystod y cyfarfod. Bydd papurau ategol yn cael eu hanfon ar yr un pryd. Eithriad yw papurau hwyr a dim ond gyda chytundeb y Cadeirydd ymlaen llaw y gellir eu derbyn.

Cworwm

34 Y cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer trafod busnes yw pum aelod, ar yr amod bod y mwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol ym mhob amgylchiad yn aelodau anweithredol.

35 Bydd cyfarfod o'r Bwrdd a gynullwyd yn briodol lle mae cworwm yn bresennol yn gymwys i arfer yr holl bwerau a dyletswyddau y gellir eu harfer gan y Bwrdd.

36 Os yw cyfarfod yn un heb gworwm, ni ellir cynnal unrhyw fusnes ffurfiol a rhaid i gyfarfod barhau i fod â chworwm er mwyn gwneud penderfyniadau. Os yw cyfarfod yn un heb gworwm, bydd unrhyw drafodaethau'n rhai anffurfiol yn unig.

37 Mewn achos lle nad oes cworwm, gall y Cadeirydd:

(a) penderfynu galw cyfarfod arbennig i gyflawni'r holl fusnes neu'r busnes sy'n weddill; neu

(b) gohirio penderfyniadau tan y cyfarfod nesaf lle y bo hynny'n ymarferol o fewn cyfyngiadau terfynau amser statudol ac ymarferol eraill; neu

(c) gofyn i un neu fwy o'r aelodau o blith y cyflogeion adael y cyfarfod a pharhau i fod yn absennol i'w alluogi i fod yn gyfarfod â chworwm.

Datganiadau o fuddiant

38 Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn disgrifio'r amgylchiadau lle mae'n rhaid cofrestru buddiannau a'r broses ar gyfer gwneud hynny. Mae'r Cod hefyd yn nodi'r broses ar gyfer datgan buddiannau yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Rhaid datgelu unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n bodoli mewn perthynas ag unrhyw drafodion gan Swyddfa Archwilio Cymru ni waeth a yw'r buddiannau hynny eisoes wedi'u cofnodi yn y Gofrestr Buddiannau ai peidio.

39 Rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu'r Cadeirydd a thynnu sylw'r Aelod at y mater os ymddengys, yn seiliedig ar ddatganiad yn y gofrestr o fuddiannau'r Aelodau, fod gwrthdaro buddiannau, neu wrthdaro buddiannau posibl, mewn perthynas ag eitem ar yr agenda.

40 Gall y Cadeirydd benderfynu y dylid ystyried rhai eitemau ar yr agenda yn absenoldeb un neu fwy o aelodau oherwydd nad yw gwrthdaro buddiannau'n gallu cael ei reoli neu ei liniaru fel arall. Lle y bo'n ymarferol gwneud hynny, bydd y Cadeirydd yn nodi eitemau o'r fath cyn y cyfarfod a byddant yn cael eu nodi ar wahân ar yr agenda fel sesiwn breifat.

41 Yn achos materion a godir ar y dydd, bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfarfod pa eitemau (os o gwbl) sydd i'w cymryd mewn sesiwn breifat. Os, am unrhyw reswm, nad yw gwrthdaro buddiannau wedi cael ei adnabod cyn cyfarfod y Bwrdd, mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau sydd ganddynt mewn perthynas â mater sy'n mynd i gael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd fel y gall y Cadeirydd benderfynu a oes angen cymryd unrhyw eitemau mewn sesiwn breifat.

42 O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Bwrdd adolygu'r defnydd o sesiynau preifat i sicrhau bod y dynodiad yn cael ei ddefnyddio'n briodol a dim ond pan fo angen.

Penderfyniadau a phleidleisio

43 Lle y bo'n bosibl, mae penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwneud trwy gonsensws o'r aelodau sy'n bresennol. Lle na all y Cadeirydd gyflawni consensws, penderfynir ar y mater trwy fwyafrif o bleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol. Mae gan bob aelod o'r Bwrdd un bleidlais, ac eithrio pleidlais fwrw'r Cadeirydd os bydd y pleidleisiau'n gyfartal.

44 Ni chaniateir pleidleisiau trwy ddirprwy na thrwy'r post ar ran aelodau sy'n absennol. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw pleidleisiau a fwrir gan aelodau mewn cyfarfodydd a gynhelir yn unol â pharagraff 31 yn bleidleisiau trwy ddirprwy.

45 Gall yr aelodau bleidleisio drwy bleidlais gudd os bydd mwyafrif o'r aelodau'n cytuno.

46 Mae gan aelodau sy'n anghytuno hawl i ofyn am gofnodi eu hanghytundeb yn y cofnodion ynghyd â'r rheswm/rhesymau dros anghytundeb o'r fath.

47 Unwaith y bydd mater wedi cael ei benderfynu, caiff pob aelod ei rwymo gan benderfyniad y Bwrdd.

48 Ni all penderfyniadau'r Bwrdd gael eu dirymu na'u hamrywio ond trwy benderfyniad dilynol gan y Bwrdd. Ni ellir dirymu nac amrywio unrhyw benderfyniad oni bai ei fod yn cael ei ailystyried fel eitem hunanfodol ar yr agenda mewn cyfarfod dilynol.

Ymddygiad

49 Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn disgrifio'r safonau ymddygiad a ddisgwylir yn ystod cyfarfodydd ac yn fwy cyffredinol. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am gadw trefn yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a gall gymryd unrhyw gamau gweithredu rhesymol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn drefnus.

Cofnodion

50 Rhaid i'r Ysgrifennydd sicrhau bod y Bwrdd yn cadw cofnodion priodol o'i drafodion a'i benderfyniadau.

51 Bydd yr Ysgrifennydd yn amcanu at anfon y cofnodion drafft at y Cadeirydd o fewn pum niwrnod gwaith i'r cyfarfod Bwrdd y maent yn ymwneud ag ef a bydd y Cadeirydd yn eu cymeradwyo i'w dosbarthu i'r aelodau.

52 Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r cofnodion yn ei gyfarfod nesaf yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau y mae'r Bwrdd yn gofyn amdanynt. Rhaid i'r Ysgrifennydd drefnu i gofnodion cyfarfodydd gael eu cyhoeddi trwy gael eu gosod mewn ardal hygyrch ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dirprwyo swyddogaethau

53 Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithredu yn unol â'i chynllun dirprwyo ond nid yw dirprwyo swyddogaeth yn atal y Bwrdd rhag arfer y swyddogaeth ei hun. Gall y Bwrdd amrywio neu ddiddymu ei gynllun dirprwyo ar unrhyw adeg trwy benderfyniad gan y Bwrdd a wnaed yn unol â'r broses benderfynu a nodir yn y Cylch Gorchwyl hwn.

Pwyllgorau'r Bwrdd

54 Gall y Bwrdd sefydlu pwyllgorau, a dirprwyo swyddogaethau iddynt (ac eithrio pan na chaniateir dirprwyo o'r fath fel a nodir yn y cynllun dirprwyo). Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo cylch gorchwyl ei bwyllgorau a adolygir bob tair blynedd.

55 Fel arfer, bydd aelodau pwyllgorau'n cynnwys aelodau anweithredol ac aelodau o blith y cyflogeion. Fodd bynnag, gall person nad yw'n aelod nac yn gyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn aelod o bwyllgor ar yr amod nad yw'r Bwrdd yn dirprwyo unrhyw swyddogaethau penderfynu i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

56 Gall un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru nad yw'n aelod o'r Bwrdd o blith y cyflogeion fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor.

Gwneud penderfyniadau brys a chamau gweithredu gan y Cadeirydd

57 O bryd i'w gilydd, bydd angen i'r Bwrdd wneud penderfyniadau ar faterion hunanfodol annisgwyl a brys rhwng cyfarfodydd wedi'u trefnu, megis dynodi person i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro yn unol â pharagraff 5, Atodlen 2 y Ddeddf. Os yw'r Ysgrifennydd ac o leiaf ddau aelod o'r bwrdd o'r farn nad yw'n ymarferol galw cyfarfod arbennig, gellir gwneud y penderfyniadau angenrheidiol trwy e-bost. Mae'r trefniadau ar gyfer cynnull cworwm (paragraffau 34 i 37) ac ar gyfer cofnodi penderfyniadau (paragraff 46) yn berthnasol i wneud penderfyniadau o'r fath

58 Yn eithriadol, efallai y bydd yn ofynnol i'r Cadeirydd gymryd cam gweithredu ar fater brys, sy'n gofyn arfer swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru ond lle nad oes dirprwyaeth ar waith a lle byddai oedi'n niweidio Swyddfa Archwilio Cymru'n ddifrifol. O dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r Ysgrifennydd sicrhau yr adroddir ar y cam gweithredu gan y Cadeirydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd a'i fod yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw trwy gael ei gadarnhau. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Bwrdd yn derbyn cyfrifoldeb corfforaethol am unrhyw gamau gweithredu a gymerir.

Gwerthuso perfformiad

59 Bydd y Bwrdd yn gwerthuso ei berfformiad ei hun (gan gynnwys perfformiad ei bwyllgorau) yn flynyddol. Bob tair i bum mlynedd, rhaid i'r gwerthusiad hwn gael ei gyflawni gan ymgynghorydd allanol annibynnol.

60 Bydd y Cadeirydd yn adolygu perfformiad yr aelodau yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad a sefydlwyd at y diben hwnnw. Caiff perfformiad y Cadeirydd ei adolygu gan yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol.

61 Mae'r Bwrdd yn cynnal cynllun dysgu a datblygu, a adolygir yn flynyddol, sy'n cwmpasu'r trefniadau ar gyfer sefydlu aelodau newydd ac ar gyfer darparu hyfforddiant parhaus perthnasol i aelodau presennol.

Dilysrwydd trafodion

62 Ni fydd y trafodion mewn unrhyw gyfarfod nac unrhyw broses i wneud penderfyniad (gan y Bwrdd neu unrhyw is-bwyllgor) yn cael ei annilysu oherwydd unrhyw anffurfioldeb neu afreoleidd-dra damweiniol (gan gynnwys peidio â hysbysu ar ddamwain neu beidio â chael

hysbysiad) neu unrhyw ddiffyg cymhwyster yn unrhyw un o'r personau sy'n bresennol neu'n pleidleisio neu oherwydd yr ystyriwyd unrhyw fusnes nad yw wedi'i nodi yn yr hysbysiad.

63 Nid effeithir ar ddilysrwydd trafodion y Bwrdd nac unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor gan unrhyw le gwag nac oherwydd bod unrhyw un o'i aelodau wedi'i benodi mewn modd diffygiol.

Sêl Swyddfa Archwilio Cymru

64 Rhaid i'r broses o osod y sêl gael ei dilysu gan:

- lofnod aelod o'r Bwrdd; neu
- unrhyw berson a awdurdodwyd at y diben trwy benderfyniad gan y Bwrdd neu drwy gynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru.

Adolygu'r cylch gorchwyl

65 Rhaid i'r Bwrdd adolygu'r cylch gorchwyl hwn bob blwyddyn. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r cylch gorchwyl hwn gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad gan y Bwrdd.

Atodiad 1 - rheolau ar gyfer ethol aelodau i'r Bwrdd o blith y cyflogeion

Cyfrifoldeb am drefniadau etholiadol

1 Bydd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn gweithredu yng nghymhwyster 'Swyddog Etholiadau' sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau ar gyfer cynnal y bleidlais ac am ardystio'r canlyniad.

2 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd ('yr Ysgrifennydd') yn gyfrifol am gynorthwyo'r Swyddog Etholiadau trwy wneud y trefniadau gweinyddol ar gyfer y bleidlais i'r graddau y bo'r rhain yn angenrheidiol i ategu'r rhai a ddarperir gan sefydliad allanol dibynadwy (gweler paragraff 21 isod).

3 Os yw'r Ysgrifennydd yn bwriadu ymladd y bleidlais, rhaid i'r Swyddog Etholiadau benodi ysgrifennydd dros dro i gyflawni rôl yr Ysgrifennydd o ran gweinyddu'r bleidlais. Os caiff yr Ysgrifennydd ei ethol, daw swydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn wag, a rhaid i'r Bwrdd gychwyn proses recriwtio i benodi rhywun yn lle'r Ysgrifennydd[2].

Hysbysiad ac amseriad y bleidlais

4 Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar y terfynau amser ar gyfer cael enwebiadau a phleidleisio. Fodd bynnag:

(a) Dylai'r terfyn amser ar gyfer cael enwebiadau fod yn ddim llai nag 8 niwrnod gwaith ar ôl yr hysbysiad o bleidlais ac yn ddim llai nag 20 niwrnod gwaith cyn bod y bleidlais yn cau.

(b) Dylai'r terfyn amser ar gyfer cau'r bleidlais fod yn ddim mwy na 45 diwrnod gwaith yn dilyn unrhyw le gwag, ond gellir ei estyn am 10 niwrnod gwaith arall er mwyn osgoi sefyllfa lle mae cyfnod yr etholiad, gan gynnwys y cyfnod ar gyfer enwebiadau, yn cyd-daro ag amser pan fo nifer fawr o staff yn absennol neu'n ymwneud yn helaeth â chwblhau archwiliadau.

5 Bydd y bleidlais ar agor am gyfnod o 10 niwrnod gwaith o leiaf.

6 Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi hysbysiad o bleidlais ar fewnrwyd Swyddfa Archwilio Cymru (gyda dolen mewn e-bost yn cael ei hanfon at yr holl staff) yn ddim hwyrach na 5 niwrnod gwaith ar ôl i le gwag achlysurol (lle gwag sy'n codi am resymau heblaw diwedd rheolaidd tymor aelod) ddigwydd neu, yn achos lleoedd gwag rheolaidd, yn ddim hwyrach na 15 niwrnod cyn diwedd rheolaidd tymor aelod

[2] Bydd person sy'n peidio â bod yn Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi cael ei ethol yn aelod o blith y cyflogeion yn cael ei neilltuo i waith arall o fewn y sefydliad, yn amodol ar argaeledd gwaith addas, ac eithrio wrth gwrs mewn perthynas â'i waith fel aelod o blith y cyflogeion.

presennol o blith y cyflogeion. Gellir cyflwyno enwebiadau o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o bleidlais.

7 Rhaid i'r hysbysiad o bleidlais nodi'r terfyn amser (dyddiad ac amser) i'r Ysgrifennydd gael enwebiadau, y dyddiad a'r amser ar gyfer dod â'r pleidleisio i ben, a chynnwys dolen i'r rheolau etholiadol hyn.

Enwebiadau

8 Mae holl gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru ni waeth beth fo ffurf na hyd eu contract, hyd eu gwasanaeth na'u horiau gwaith yn gymwys i gael eu henwebu i sefyll mewn etholiad.

9 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, gan gysylltu â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell fel y bo'n briodol, yn gwneud trefniadau i sicrhau bod staff sydd i ffwrdd o'r swyddfa, er enghraifft ar secondiad, absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb rhiant, yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses os ydynt yn dewis gwneud hynny.

10 Rhaid i enwebiadau gael eu gwneud ar ffurflen a gymeradwywyd gan y Swyddog Etholiadau, cael eu llofnodi gan yr ymgeisydd a'r pum noddwr sy'n gyflogeion i Swyddfa Archwilio Cymru (neu gael eu hategu gan negeseuon e-bost diledryw o gyfeiriadau e-bost y personau perthnasol yn Swyddfa Archwilio Cymru) a dod i law'r Ysgrifennydd cyn y terfyn amser a gyhoeddwyd. Ni all noddwr ond noddi un ymgeisydd ar gyfer pob lle gwag. Ni fydd enwebiadau sy'n dod i law ar ôl y terfyn amser yn cael eu derbyn. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y ffurflen enwebu'n cael ei chwblhau'n briodol a'i chyflwyno i'r Ysgrifennydd cyn y terfyn amser.

11 Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi rhestr o enwebiadau dilys a gafwyd ar fewnrwyd Swyddfa Archwilio Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser. Bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu bod ffurflenni enwebu a gwblhawyd ar gael i'w harchwilio.

12 Os yw nifer yr enwebiadau dilys yn cyfateb i nifer y lleoedd sydd ar gael, nid oes angen pleidleisio a byddir yn ystyried bod y rhai a enwebwyd wedi'u hethol.

13 Os yw nifer yr enwebiadau dilys yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr holl ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys yn cael eu hethol a bydd lle gwag achlysurol yn codi mewn perthynas â'r lle sydd heb ei lenwi a bydd yn rhaid ailadrodd y broses etholiadol nes llenwir pob lle gwag.

Ymgyrchu

14 Caniateir i ymgeiswyr a enwebwyd ymgyrchu trwy unrhyw un neu'r cyfan o'r dulliau canlynol:

i. darparu **datganiad ysgrifenedig a hwnnw heb fod yn fwy na 500 o eiriau** i'w gyhoeddi ar y fewnrwyd (yr Hwb) a'r wefan bleidleisio allanol. Dylid anfon y datganiad trwy'r e-bost at Ysgrifennydd y Bwrdd a fydd yn trefnu iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi. Wrth gynllunio eu hymgyrch dylai ymgeiswyr ganiatáu 3 diwrnod gwaith ar gyfer cyfieithu a chyhoeddi ar yr HWB. Ar

wahân i hynny bydd ymgeiswyr yn cael dyddiad sy'n nodi erbyn pryd y dylid darparu'r datganiad er mwyn iddo gael ei gynnwys ar y safle pleidleisio allanol. Ni fydd datganiadau nad ydynt yn dod i law erbyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cynnwys.

ii. anfon **un e-bost a hwnnw heb fod yn fwy na 500 o eiriau at yr holl staff -** dylai ymgeiswyr drefnu iddo gael ei gyfieithu yn uniongyrchol trwy'r gwasanaeth cyfieithu a chyhoeddi'r e-bost yn ddwyieithog i'r holl staff yn ystod cyfnod yr ymgyrch;

iii. gwahodd yr holl staff i fod yn bresennol mewn **un sesiwn holi ac ateb trwy gyfarfod Teams neu Hybrid**, y gellir cyhoeddi crynodeb dienw o'r cwestiynau ac atebion a gafwyd ynddi ar y dudalen etholiadau ar yr HWB;

iv. **ateb cwestiynau ad hoc** a ofynnir yn anffurfiol ar lafar, trwy'r e-bost, sylwadau ar Viva Engage (Yammer) neu'r HWB ac ychwanegu'r rhain at ddogfen holi ac ateb ar y dudalen etholiadau ar yr HWB;

v. **darparu fideo un funud o hyd ar gyfer yr HWB** yn cyflwyno eu hunain a'u rhesymau dros sefyll; a

vi. defnyddio edefyn Viva Engage (Yammer) ar y grŵp 'cwmni cyfan' i wahodd ac ateb cwestiynau.

15 Ni chaniateir unrhyw fathau eraill o ymgyrchu gan yr ymgeisydd na'i gefnogwyr; ni ddylid defnyddio cyfrifon personol na chyfrifon gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgyrchu, ac eithrio'r grŵp cwmni-cyfan ar Viva Engage (Yammer) neu'r nodwedd sylwadau ar yr HWB sy'n weladwy i'r holl staff.

16 Daw'r cyfnod ymgyrchu i ben pan fydd y bleidlais yn agor; ni chaniateir i ymgeiswyr ymgyrchu ar ôl y dyddiad hwn.

17 Ni chaniateir i ymgeiswyr ganfasio, a ddiffinnir fel cychwyn cyswllt uniongyrchol ag unigolion mewn modd systematig i ofyn am bleidleisiau.

18 Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu gweithgarwch ymgyrchu a ganiateir yn unol â Chod Ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru. Yn benodol, rhaid iddynt beidio â dynodi unrhyw gysylltiadau gwleidyddol, a rhaid iddynt beidio â dweud wrth ymgyrchu eu bod wedi sicrhau cefnogaeth unrhyw sefydliad allanol. Fodd bynnag, gallant ddynodi eu bod wedi sicrhau cefnogaeth gan gangen leol (Swyddfa Archwilio Cymru) un o'r undebau llafur.

19 Os bydd angen addasiadau rhesymol ar ymgeiswyr enwebedig i gymryd rhan yn y broses, bydd y rhain yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi Addasiadau Rhesymol Swyddfa Archwilio Cymru

Pleidleisio

20 Mae gan holl gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru, ni waeth beth fo ffurf na hyd eu contract, hyd eu gwasanaeth na'u horiau gwaith, hawl i bleidleisio.

21 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, gan gynnal cyswllt â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell fel y bo'n briodol, yn gwneud trefniadau i sicrhau bod staff sydd i

ffwrdd o'r swyddfa, er enghraifft ar secondiad, absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb rhiant, yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses os ydynt yn dewis gwneud hynny.

22 Bydd y Bwrdd yn rhoi'r cyfrifoldeb am weinyddu'r bleidlais ar gontract i sefydliad allanol dibynadwy. Rhaid i'r Swyddog Etholiadau sicrhau bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau:

(a) Mai dim ond unwaith y gall cyflogeion bleidleisio; a

(b) Bod y canlyniad yn cael ei wirio'n annibynnol fel nad yw'r pleidleisiau a fwriwyd gan staff unigol yn gallu cael eu gweld gan aelodau eraill o staff nac aelodau o'r Bwrdd.

23 Bydd staff yn cael eu gwahodd i osod "1" ar bwys eu dewis ymgeisydd a "2" ar bwys eu hail ddewis ac yn y blaen. Mae unrhyw ymgeisydd sy'n cael pleidleisiau dewis cyntaf uwchben trothwy rhagderfynedig a bennir trwy gyfeirio at fformiwla yn cael ei ethol. Pennir y trothwy trwy gyfeirio at y fformiwla ganlynol:

$$\left(\frac{nifer\ y\ pleidleisiau\ a\ fwriwyd}{nifer\ y\ lleoedd\ sydd\ ar\ gael+1}\right)+1$$

24 Yna caiff pleidleisiau dros ben yr ymgeisydd etholedig uwchlaw'r trothwy hwn eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr eraill yn gymesur â phleidleisiau ail ddewis pleidleiswyr yr ymgeisydd etholedig. Os bydd unrhyw ymgeisydd yn mynd heibio i'r trothwy ar ôl yr ailddosbarthiad hwn, caiff ei ethol. Ar unrhyw adeg yn y broses hon, os nad oes gan unrhyw ymgeiswyr sydd heb eu hethol nifer o bleidleisiau sy'n uwch na'r trothwy, bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer isaf o bleidleisiau dewis cyntaf yn cael ei fwrw allan a bydd ei bleidleisiau'n cael eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr sy'n weddill yn gymesur â'u pleidleisiau ail ddewis. Mae'r broses hon yn parhau nes bod y nifer gofynnol o ymgeiswyr yn sicrhau digon o bleidleisiau i gyrraedd y trothwy.

25 Os mai dim ond un lle sydd ar gael mewn unrhyw etholiad penodol, y trothwy wedyn fydd hanner y pleidleisiau ar y cyfan. Os na fydd unrhyw ymgeisydd yn ennill mwy na hanner y pleidleisiau, bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer isaf o bleidleisiau dewis cyntaf yn cael ei fwrw allan a bydd ei bleidleisiau'n cael eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr sy'n weddill yn gymesur â'u pleidleisiau ail ddewis, ac yn y blaen nes bod un ymgeisydd yn sicrhau mwy na hanner y bleidlais.

26 Rhaid i'r Ysgrifennydd anfon e-bost at yr holl staff sy'n esbonio sut y dylid bwrw pleidleisiau o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn i'r bleidlais agor.

27 Ar ôl y terfyn amser ar gyfer pleidleisio, bydd contractwr y bleidlais yn gwirio'r pleidleisiau'n annibynnol, a bydd y Swyddog Etholiadau'n ardystio'r canlyniadau. Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi trosolwg o'r canlyniadau ar fewnrwyd Swyddfa Archwilio Cymru a threfnu bod y canlyniadau llawn ar gael ar gais. Bydd y trosolwg o'r canlyniadau'n cynnwys enwau pob ymgeisydd a etholwyd, y rownd y cawsant eu hethol ynddi, a'r bleidlais a gawsant ar eu rownd derfynol, yn ogystal ag enwau pob ymgeisydd na chawsant eu hethol ynghyd â'r cam pan gawsant eu bwrw allan o'r bleidlais a'r bleidlais a gawsant ar eu rownd derfynol.

28 Bydd yr aelodau anweithredol o'r Bwrdd yn penodi'r ymgeiswyr llwyddiannus i'r Bwrdd.

Anghydfodau a honiadau o dorri'r Rheolau

29 Rhaid i unrhyw ymgeisydd, aelod o staff neu aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru sy'n honni bod y rheolau hyn wedi cael eu torri hysbysu'r Swyddog Etholiadau ynghylch y ffeithiau sy'n hysbys iddynt cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl dod yn ymwybodol o hynny (a beth bynnag o fewn 5 niwrnod gwaith i ddod yn ymwybodol) a rhaid iddynt ddarparu unrhyw dystiolaeth sydd yn eu meddiant neu o fewn eu rheolaeth ar gyfer y Swyddog Etholiadau.

30 Bydd y Swyddog Etholiadau'n dyfarnu ynghylch unrhyw achosion honedig o'r fath o dorri'r Rheolau neu unrhyw anghydfodau eraill ynghylch y broses etholiadol neu ei chanlyniad. Rhaid cyflwyno rhesymau dros anghydfodau yn ysgrifenedig o fewn 5 niwrnod gwaith ar ôl i achos yr anghydfod ddod i'r amlwg. Bydd y Swyddog Etholiadau'n ceisio barn yr ymgeiswyr eraill ac unrhyw bartïon perthnasol eraill a gall gynnal ymholiadau ychwanegol. Bydd y Swyddog Etholiadau'n rhoi ei benderfyniadau yn ysgrifenedig (a all fod trwy e-bost).

31 Fel rhan o'i benderfyniad ar unrhyw anghydfod, mae gan y Swyddog Etholiadau ddisgresiwn i ddiarddel ymgeisydd. Mae gan y Swyddog Etholiadau hefyd ddisgresiwn i estyn proses y bleidlais neu ei chanslo a gorchymyn pleidlais newydd yn unol â'r Rheolau hyn. Fodd bynnag, rhaid i'r Swyddog Etholiadau sicrhau bod ei benderfyniad yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.

32 Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r Swyddog Etholiadau trwy gyflwyno apêl ysgrifenedig a honno'n nodi sail yr apêl i Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Rhaid gwneud apeliadau o fewn 5 niwrnod gwaith ar ôl i benderfyniad ysgrifenedig y Swyddog Etholiadau gael ei anfon. Rhaid i'r Cadeirydd benderfynu ar yr apêl yn brydlon a darparu ei benderfyniad yn ysgrifenedig (a all fod trwy e-bost). Mae penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol. Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i wyrdroi diarddeliad ond ni all ddiarddel ymgeisydd. Mae gan y Cadeirydd hefyd ddisgresiwn i estyn y broses bleidleisio neu ei chanslo a gorchymyn pleidlais newydd yn unol â'r Rheolau hyn. Fodd bynnag, rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod ei benderfyniad yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.

33 Os caiff person ei ddiarddel ar ôl cael ei ethol, bydd ei benodiad fel aelod o'r Bwrdd o blith y cyflogeion yn dod i ben ar ôl penderfynu unrhyw apêl neu, os nad oes apêl, ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer apêl ddod i ben, ac yna mae lle gwag achlysurol yn codi.

Atodiad 2 – Disgrifiadau o rolau hyrwyddwyr a phersonau cyswllt y Bwrdd

1 Gall y Bwrdd benodi aelodau i rolau hyrwyddwyr a / neu bersonau cyswllt. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd yn ystyried y canlynol:

- ymrwymiadau aelodau ar Bwyllgorau ac ymrwymiadau eraill, megis cyfrifoldebau Cadeirio ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol;
- unrhyw ddatganiadau penodol o ddiddordeb neu feysydd arbenigedd penodol; ac
- unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

2 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cofnod o benodiadau i rolau hyrwyddwyr a phersonau cyswllt y Bwrdd.

3 Bydd y Bwrdd yn adolygu'r penodiadau bob blwyddyn, ac yn y cyfarfod hwnnw bydd pob person cyswllt neu hyrwyddwr yn rhoi diweddariad byr ar eu gweithgarwch yn ystod y flwyddyn. Bydd effaith y rolau'n cael ei hystyried fel rhan o'r asesiad o effeithiolrwydd y Bwrdd.

4 Rhaid i'r Bwrdd ac aelodau unigol sy'n cyflawni naill ai rôl hyrwyddwr neu rôl person cyswllt sicrhau:

- nad yw'r rôl yn tresmasu ar gamau gweithredu a gweithgareddau sy'n gyfrifoldebau i staff â dirprwyaethau perthnasol;
- nad yw'r rôl yn tresmasu ar gamau gweithredu a gweithgareddau sy'n gyfrifoldeb i'r Bwrdd cyfan neu un neu fwy o'i Bwyllgorau;
- nad yw aelodau eraill o'r Bwrdd yn esgeuluso'r materion sy'n berthnasol i'r rôl hyrwyddwr neu berson cyswllt;
- nad yw'r rôl yn amharu ar allu aelod i gyflawni ei gyfrifoldebau am ddwyn rheolwyr i gyfrif.

5 Dylai barn a fynegir gan aelodau sy'n cyflawni rolau hyrwyddwyr neu bersonau cyswllt gynrychioli barn y Bwrdd neu o leiaf beidio â gwrthdaro â safbwynt cytunedig y Bwrdd ar unrhyw fater.

Hyrwyddwr

6 Mewn meysydd trawsbynciol h.y. materion nad ydynt yn cyd-fynd yn sylweddol ag unrhyw swyddogaeth benodol sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru, megis diwylliant sefydliadol, y nodir eu bod yn bwysig gan y Bwrdd, gellir enwebu Hyrwyddwr Bwrdd i:

- ymgysylltu â staff sy'n gyfrifol am faes pwnc o'r fath, a'u cefnogi;
- helpu i hyrwyddo a/neu godi ymwybyddiaeth o'r maes pwnc; a
- lle y bo'n briodol, gwneud yn siŵr bod y maes pwnc yn cael ei ystyried pan fydd y Bwrdd neu ei Bwyllgorau'n ystyried strategaeth / polisi neu'n gwneud penderfyniadau neu argymhellion.

7 Wrth adnabod meysydd o bwys, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar feysydd sy'n arwyddocaol i gyflawni trefniadau llywodraethu da yn Archwilio Cymru, megis:

- gwerthoedd ac ymddygiad;
- amrywiaeth;
- arweinyddiaeth a rheolaeth; a hefyd
- yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

Person Cyswllt

8 Gall y Bwrdd benodi aelodau i rolau cyswllt mewn meysydd sydd o bwys strategol i'r sefydliad. Bydd person cyswllt y Bwrdd:

- yn ceisio cael lefel ddyfnach o ddealltwriaeth a gwybodaeth am y maes, ei berthnasedd i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, a'r cyfleoedd a'r heriau y mae'n eu cyflwyno, gyda'r nod o'u harfogi hwy eu hunain a'r Bwrdd yn well i gyflawni eu rolau:
- lle y gallant gynrychioli barn y Bwrdd yn ddiogel, yn gweithredu fel person cyswllt y Bwrdd gyda'r rheolwyr, megis trwy ddarparu barn ymlaen llaw ynglŷn â chynlluniau a strategaethau cyn iddynt gael eu hystyried gan y Bwrdd;
- yn mynychu cyfarfodydd perthnasol fel y bo'n briodol i oleuo trafodaethau;
- yn defnyddio'u profiad a'u safbwynt i gefnogi a hysbysu'r rheolwyr yn barhaus;
- yn defnyddio'u profiad i gynnig arweiniad i arweinwyr prosiectau, gan gynyddu i'r eithaf effeithiolrwydd eu cyfraniad i'r maes;
- fel y bo'n briodol, yn ymgysylltu â'r sefydliad ehangach i hyrwyddo a helpu i godi proffil y maes; ac
- yn ceisio sicrhau bod y Bwrdd mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau gwybodus ar yr adeg gywir.

9 Wrth ddewis meysydd, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar eu pwysigrwydd strategol yng nghyd-destun blaenoriaethau wrth arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, fel y'u mynegir yn y strategaeth pum mlynedd ac mewn priod Gynlluniau Blynyddol. Er enghraifft, gall y Bwrdd ystyried:

- lefel y buddsoddiad, gan gynnwys ei botensial i ddwyn arbedion tymor hir;
- y risgiau, gan gynnwys risgiau i gyfleoedd ac i enw da;
- goblygiadau ar gyfer y gweithlu, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol; a hefyd
- cysylltiadau â phrosiectau neu bynciau eraill.

Person Cyswllt – Prosiect / Tasg

10 Gall y Bwrdd hefyd benodi aelodau i rôl person cyswllt ar gyfer prosiect neu ddarn o waith penodol â chyfyngiad amser a allai olygu bod angen ymwneud gan aelodau dros gyfnod byrrach neu at ddiben penodol. Bydd person cyswllt y Bwrdd:

- yn cyflawni eu rôl, gan ddilyn yr egwyddorion a amlinellir ar gyfer y rôl person cyswllt ehangach a amlinellir uchod; a
- lle y bo'n briodol, yn tynnu sylw at eu hymwneud neu eu cyfraniad yn ystod ystyriaeth berthnasol gan y Bwrdd i'r eitem honno.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.